Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Cae Mur**
**13 Ffordd Elidir, Caernarfon, LL55 1DR**

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy’n ysgrifennu atoch i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynllun i symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i Siop Elidir Cyf., 17-19 Ffordd Elidir, Caernarfon, LL55 1DR,lle caiff ei rhedeg fel un o ganghennau lleol ffasiwn newydd Swyddfa'r Post.

Yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol, ni chawsom unrhyw ymateb gan gwsmeriaid na chynrychiolwyr lleol ynglŷn â'r symud arfaethedig; fodd bynnag, rwyf wedi cynnal adolygiad terfynol o'r cynnig gwreiddiol. Rwy'n ffyddiog fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

Rwy'n falch dros ben fod y gangen hon yn rhan o'r broses o foderneiddio ein rhwydwaith o Swyddfeydd Post, gan gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post a fydd yn diwallu anghenion cwsmeriaid ac yn helpu i wneud y gangen yn gynaliadwy yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae gennym dros 3,700 o ganghennau lleol sy'n cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y ffordd newydd hon, ac mae ymateb y cwsmeriaid a'r gweithredwyr wedi bod yn galonogol iawn.

Rydym yn sylweddoli fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Bydd y mynediad yn wastad a bydd drws llydan wrth y fynedfa. Y tu mewn i’r siop, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ffasiwn-newydd weithredu ochr yn ochr â'r siop. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi a ffitiadau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno i wneud yn siŵr fod digon o le i ddod i mewn i'r adeilad. Bydd y llwybrau a’r man lle bydd cwsmeriaid yn aros eu tro yn cael eu cadw heb rwystrau a bydd digon o le i gwsmeriaid â chadair olwyn symud o gwmpas y siop a chyrchu gwasanaethau’r Swyddfa Bost.

Bydd y Swyddfa Bost leol ffasiwn newydd yn cael ei rhedeg o dil â chynllun agored, yn ymyl cownter y siop. Mae trafodion Swyddfa'r Post i fod yn gyflym ac effeithlon fel bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth effeithlon a chyflym heb orfod aros eu tro am yn hir. Bydd y mwyafrif helaeth o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa’r Post ar gael o hyd yn y gangen newydd. Mae'r newid yn golygu hefyd y bydd trigolion lleol yn elwa ar oriau agor llawer hirach, gan gynnwys prynhawniau Sadwrn, dydd Sul ac oriau agor estynedig drwy gydol yr wythnos. Felly, gall cwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau ar adegau a fydd yn fwy cyfleus iddyn nhw. Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 12:30 ar 5 Awst 2017, a bydd y gangen newydd yn agor yn Siop Elidir Cyf., 17-19 Ffordd Elidir am 13:00 ddydd Llun 7 Awst 2017. Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri’n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 284604

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi llawn o’r Cod Ymarfer ar gael trwy fynd i’n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk, neu gallwch gael copi wrth gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch i chi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

**Suzanne Richardson**
**Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth: 03457 22 33 44
Ffôn testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments

**Sylwch taw hwn yw’r cyfeiriad llawn ac nad oes angen rhagor o fanylion.**

Mae’r ddogfen hon ar gael hefyd ar-lein. I’w gweld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa app.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â’r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

<table>
<tr><th colspan="2">Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Cae Mur</th></tr>
<tr><td>Cyfeiriad</td><td>Siop Elidir Cyf.<br>17-19 Ffordd Elidir<br>Caernarfon,<br>LL55 1DR</td></tr>
<tr><td>Oriau agor</td><td><table>
<tr><td>Llun</td><td>08:30 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Mawrth</td><td>08:30 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Mercher</td><td>08:30 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Iau</td><td>08:30 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Gwener</td><td>08:30 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Sadwrn</td><td>08:30 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Sul</td><td>08:30 – 20:00</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>Pellter</td><td>Dau ddrws o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad.</td></tr>
<tr><td>Cynhyrchion a Gwasanaethau</td><td>Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.</td></tr>
<tr><td>Hygyrchedd a gwaith hygyrchedd</td><td>Mynediad a chyfleusterau<br>Bydd y mynediad yn wastad a bydd drws llydan wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.<br><br>Parcio<br>Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd.</td></tr>
<tr><td>Y Siop</td><td>Siop Gyfleustra</td></tr>
<tr><td>Dyddiad yr Adleoliad</td><td>Ddydd Llun 7 Awst 2017 am 13:00</td></tr>
</table>

| Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Cae Mur | |
|---|---|
| **Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 223344 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk** | |
| | **Y gangen newydd** |
| **Post** | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Special Delivery | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ |
| Parseli Express a chontract | **Express 24 a 48** |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure) | ✓ |
| Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✗ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio Personol a Busnes: codi arian, adneuon ac ymholiadau balans wrth ddefnyddio cerdyn. Hefyd, adneuo sieciau mewn amlen a slipiau adneuo â chod bar. | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ |
| **Talu Biliau** | |
| Taliadau bil awtomataidd (cerdyn neu â chod bar) | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ |
| Transcash (heb god bar) | ✗ |
| **Trwyddedau** | |
| Trwyddedau pysgota â gwialen | ✓ |
| **Teithio** | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ |
| Atgyfeirio yswiriant teithio | ✓ |
| | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ |
| Terfynell Loteri Cenedlaethol | ✗ |
| **Talu â siec** | ✗ |

Mae'r cynhyrchion sydd wedi'u nodi â ✗ ar gael yn Swyddfa Bost **Caernarfon**, Y Maes, Caernarfon, LL55 2ND

Oriau agor:

| | |
|---|---|
| Llun, Mer, Iau, Gwen | 09:00-17:30 |
| Maw | 09:30–17:30 |
| Sad | 09:00-12:30 |